PAM MEDRWCH YMDDIRIED YN Y BEIBL

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch y gynulleidfa i werthfawrogi fod y Beibl wedi'i ysbrydoli gan Dduw a'i fod e'n arweiniad ymarferol a dibynadwy wedi'i ddarparu ar gyfer y ddynoliaeth. Pwysleisiwch mor hanfodol yw glynu wrth yr hyn mae'r Beibl yn ei ddweud er mwyn anrhydeddu Duw a byw bywyd hapus

MAE ANGEN ARWEINIAD Y GELLIR YMDDIRIED YNDDO AR Y DDYNOLIAETH (3 mun.)

Mae pobl ym mhobman yn ceisio arweiniad am amryw resymau

Maen' nhw eisiau gwella'u ffyniant corfforol a meddyliol a gwrthsefyll salwch ac afiechyd

Eu dymuniad ydi gwella eu priodas a'u bywyd teuluol

Maen' nhw'n ceisio cymorth i wneud penderfyniadau ynglŷn ag addysg, gwaith, materion ariannol, a llu o bethau eraill

Mae llawer yn troi at gynghorwyr proffesiynol a llyfrau hunangymorth

I'r mwyafrif mae'r canlyniadau ymhell o fod yn foddhaol oherwydd fod yr arweiniad a gânt gan amlaf wedi'i seilio ar brofiad dynol cyfyng iawn neu am na ellir ymddiried ynddo

Mae miliynau o bob cefndir ethnig, cenedlaethol, addysgol a chymdeithasol wedi canfod arweiniad y gellir ymddiried ynddo ac sy'n gweithio'n go iawn

Mae e wedi'u gwneud nhw'n bobl heddychlon, hapus, ac unol y dywedodd un erthygl olygyddol amdanyn' nhw: "Digon yw dweud petai'r holl fyd yn byw yn ôl credo [Beiblaidd] Tystion Jehofah y byddai diwedd ar dywallt gwaed a chasineb, a byddai cariad yn teyrnasu'n frenin." (*g*93 12/22 13)

Mae Tystion Jehofah yn ymddiried yn y Beibl ac yn credu'n gadarn ei fod yn darparu'r arweiniad gorau yn y byd

PAM Y DYLECH YMDDIRIED YN Y BEIBL (17 mun.)

'Dyw'r rhan fwyaf o bobl nad ydyn' nhw'n credu'r Beibl erioed wedi'i ddarllen

Petaen' nhw'n astudio'r Beibl, mi fydden' nhw'n canfod ei fod e *bob amser* yn gywir

Fe ddywedodd Iesu Grist mai gair Duw, sydd wedi'i gofnodi yn yr Ysgrythurau, yw'r gwirionedd (In 17:17)

Dowch inni weld pam y gellir ystyried y Beibl yn wirionedd Gair Duw

Mae'r Beibl yn hanesyddol a daearyddol gywir

Ysgrifennodd yr archeolegydd Yohanan Aharoni: "Mae'r Beibl yn parhau i fod yn brif ffynhonnell daearyddiaeth hanesyddol Palesteina yn ystod y cyfnod Israelaidd. Mae ei draethiadau a'i ddisgrifiadau yn adlewyrchu eu hamgylchedd daearyddol nhw yn ogystal â'r digwyddiadau hanesyddol a fu. Mae e'n cynnwys cyfeiriadau at tua 475 enw daearyddol lleol, llawer ohonynt mewn cyd-destunau sy'n darparu manylion perthnasol ynglŷn â natur, lleoliad a hanes y lle." (*g*83 7/8 6)

Mae'r Beibl yn wyddonol ddibynadwy

Er bod 'na farn hollol wahanol yn bod pan ysgrifennwyd llyfrau Job ac Eseia, mae'r hyn a ddywedant yn wyddonol gywir

'Roedd Eseia'n iawn yn cyfeirio at y ddaear fel "cromen," neu sffêr (Eseia 40:22)

'Roedd yr Ysgrythurau hefyd yn iawn wrth ddweud fod y ddaear wedi'i gosod ar ddim (Job 26:7)

Mae proffwydoliaethau di-feth yn gwneud y Beibl yn llyfr unigryw

Cyflawnwyd rhai proffwydoliaethau Beiblaidd yn y gorffennol

Ceir proffwydoliaeth ryfeddol a gyflawnwyd yn y gorffennol yn Daniel 8:3-8; 20-22 (*w*93 5/15 6)

Mae proffwydoliaethau Ysgrythurol eraill yn cael eu cyflawni yn amser y diwedd presennol hwn

Ceir un o lawer o broffwydoliaethau sy'n cael eu cyflawni yn ein dydd ni yn Datguddiad 17:3, 8-11, a ysgrifennwyd tua 1,900 blwyddyn yn ôl (*re* 246-8; 251-4)

Daeth y "bwystfil ysgarlad" i fodolaeth yn ffurf Cynghrair y Cenhedloedd, a mynd i'r pydew diwaelod yn ystod Rhyfel Byd II, ac ailymddangos yn 1945 yn ffurf y Cenhedloedd Unedig

Mae'r saith ben yn cynrychioli'r saith prif rym sydd, bob un yn ei dro, wedi bod ar y blaen yn gorthrymu pobl Dduw

'Dyw'r wybodaeth Ysgrythurol hon, wrth gwrs, ddim yn awdurdodi unrhyw ffurf ar amarch at lywodraethau na'u swyddogion

Fel gwir Gristionogion, mae Tystion Jehofah yn dangos parch dyladwy i'r 'awdurdodau llywodraethol sy'n ben' (Rhuf 13:1)

Mae archwilio'r Beibl yn onest yn rhoi tystiolaeth ddiwrthdro mai Gair Duw ydyw a'i fod yn ffynhonnell cyfarwyddyd ac arweiniad ddibynadwy

PAM DYLECH GAEL EICH ARWAIN GAN Y BEIBL (20 mun.)

Mae'r Beibl yn 'llusern i'n troed ac yn oleuni i'n llwybr' (Salm 119:105)

Dywedodd cyn-fyfyriwr y gyfraith mewn prifysgol yn Sbaen: "Dysgodd y brifysgol fi sut i astudio; dysgodd y Beibl fi sut i fyw" (*w*94 9/15 27)

Mae'r Beibl yn pwysleisio gwerthoedd priodol, yn ogystal ag egwyddorion i fyw wrthynt, a gall wneud hyd yn oed y rhai dibrofiad yn ddoeth (Salm 19:7, 8)

Mae'n ein hannog ni i fod yn ddigynnwrf, nid yn genfigennus neu'n wyllt eich tymer (Diar 14:30; *w*96 2/1 31; 12/15 32)

Mae'r Ysgrythurau yn ein cynghori ni i fod yn gymhedrol o ran arferion (Diar 23:20; 1Tim 3:11; Tit 2:2)

Er nad yw'r Beibl yn addo iechyd perffaith inni 'nawr, mae'n rhoi gwroldeb inni i fwrw 'mlaen a dyfalbarhau er gwaethaf problemau iechyd

Datganodd gwraig a ddaliodd ati am oes mewn brwydr yn erbyn parlys yr ymennydd, yn ogystal â chyfnodau o iselder: "Gall y bydd fy iechyd yn parhau i ddirywio, ond mae fy ymddiried yn Nuw a'm perthynas ag ef yn gynhaliaeth imi. 'Rwyf mor hapus bod ymhlith pobl Jehofah ac i dderbyn ei gefnogaeth sicr!" (*w*93 6/1 31)

Mae'r Beibl yn cynnig cyngor sy'n gweithio'n ymarferol ar sut i ddatrys problemau priodas a phroblemau teuluol eraill

Ysgrifennodd athro yn Zimbabwe, Affrica: "Mae fy ngwraig a minnau wedi dysgu trwy ein profiad blin mai ofer yw ymdrechion dyn i ddatrys ei broblemau yn annibynnol ar Dduw." (*g*97 4/8 32; *fy* 11)

Os dilynwn y Beibl, byddwn yn ffyddlon i'n cymar ac felly osgoi gofid torpriodas (Diar 6:32, 33; Eff 5:33)

Oherwydd cydymffurfio â safonau'r Beibl, mae Cristionogion yn ceisio heddwch â phawb (Rhuf 12:18; Heb 12:14)

Mae gwerthfawrogi'r gwirionedd Beiblaidd nad yw Duw yn dangos ffafriaeth yn ein helpu i oresgyn rhagfarn hiliol ac ethnig (Act 10:34, 35; *g*88 1/22 27)

'Rydym yn dysgu o'r Ysgrythurau nad dim ond rhyw ffurf uwch ar fywyd anifeiliaid ydym ond fod y gallu i feddwl yn ysbrydol gennym (Mth 5:3; Col 3:16, 17)

Gall gwybodaeth gywir o'r Beibl ein harwain i ddyfodol hapus

Mae'n rhoi inni wir bwrpas mewn bywyd, sef gwasanaethu Duw

Mae derbyn Gair Duw yn ddiolchgar yn ein galluogi ni i gael perthynas agos â Jehofah, Ffynhonnell bywyd, gwirionedd, a goleuni ysbrydol (Salm 36:9; 43:3)

'Rydym yn cael cymdeithasu'n llawen â phobl Dduw (Salm 144:15b)

Mae gwirionedd y Beibl yn rhoi pwrpas i'n bywyd yng ngwasanaeth Jehofah

CANIATEWCH I'R BEIBL EICH ARWAIN CHI I HAPUSRWYDD A BYWYD (5 mun.)

Derbyniwch y Beibl am yr hyn ydyw mewn gwirionedd, sef Gair Duw (1Thes 2:13)

Mae ei gyngor o fudd inni ym mhob ffordd

Mae arweiniad Ysgrythurol yn ein helpu ni i fyw bywydau hapus, llawn pwrpas

Mae'r Beibl yn darparu'r arweiniad sydd ei angen i ymdopi â phroblemau iechyd, anawsterau teuluol, a threialon eraill

Mae'n cynnig gobaith sicr (Dat 21:3, 4)

Yn fwy na dim, mae'r Beibl yn dangos inni sut i wasanaethu Jehofah Dduw yn dderbyniol (2Tim 3:16, 17)

Wrth ddilyn y Beibl, arweiniad sicr Duw, ac aros gyda'i bobl, gallwch fwynhau hapusrwydd tragwyddol (Diar 2:21)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob ysgrythur a grybwyllir neu y gwneir sylwadau arno)